

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 27<sup>AIN</sup> TACHWEDD 2018 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Maer, Cynghorydd S. Williams  
Cynghorydd C. Brockley, (Is-Gadeirydd)  
Cynghorwyr B. Barton, N. Bastow (Dirprwy Faer), G.  
Campbell, Mrs M. Jones, C. Matthews, M. Tasker, M. Worth,

**SWYDDOG:** Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

**262/18 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cymerwyd y Gadair gan y Cynghorydd C. Brockley, (Is-Gadeirydd). Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs Glenys Baker (Cadeirydd), D. Bradley a J. Pearson (Warden Coed) a Chlerc y Dref, Mrs T. Earley.

**263/18 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim

**264/18 Cofnodion:**

*Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 30<sup>ain</sup> Hydref 2018 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir..*

**265/18 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:**

**(a) Cofnod 229/18(a) – Cysgodfa Bws Ffordd Hesketh:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol copi o lythyr a anfonwyd at Heddlu Gogledd Cymru gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC). Caiff unrhyw ymateb ei gyfeirio at gyfarfod yn y dyfodol.

**(b) Cofnod 230/18(c) – Marchnad Bae Colwyn:**

Fe nodwyd gan yr Aelodau bydd CBSC yn ceisio mynegiant o ddiddordeb gan gontractwyr preifat i redeg marchnadoedd wythnosol yn rheolaidd.

**(c) Cofnod 232/18 -Offerynnau Cerdd NWAMI:**

Cyfeiriodd y Cynghorydd C. Matthews at yr e-bost a anfonwyd ganddo at NWAMI yn gofyn am wybodaeth parthed lleoliad yr offerynnau a'u cyflwr. Roedd wedi derbyn gwahoddiad i'w harchwilio ond ni chafwyd unrhyw wybodaeth am y lleoliad na'r amser ac ni dderbyniodd unrhyw ymateb i negeseuon e-bost pellach.

*Penderfynwyd disgwyl am ymateb gan NWAMI cyn symud ymlaen ymhellach parthed eu cais am ystafell addas ar gyfer storio.*

**ch) Cofnod 234/18 – Sul y Cofio:**

Rhoddodd yr Aelodau adroddiadau am y presenoldeb uchel a fu yn y 3 gwasanaeth ar Sul y Cofio: cafwyd presenoldeb uchel yn y gwasanaethau ger y Cofebion Rhyfel ym Mae Colwyn ac yn Hen Golwyn a chyfeiriodd

y Maer at mor deimladwy y bu yn enwedig ar adeg y canmlwyddiant. Daeth dros 6,000 o bobl i ddiwyddiad Tudalennau o'r Môr ac roedd hyn yn arbennig o deimladwy wrth i'r ddelwedd cael ei ysgubo i'r môr erbyn 11 o'r gloch.

**d) Cofnod 235/18 – Dodrefn y Stryd:**

Gofynnwyd i'r Aelodau am adroddiadau yn dilyn eu harchwiliadau diweddar o hysbysfyrddau. Cyflwynodd y Cyngorydd M. Jones darlun o hysbysfwrdd Tan Lan, a chytunodd yr Aelodau ei fod mewn angen brys i gael ei drwsio. Diolchwyd i'r Aelodau am eu harchwiliadau.

**dd) Cofnod 237/18(c) Canllawiau Cynllunio Ychwanegol (SPG):**

Gofynnodd y Cyngorydd B. Barton i'r Clerc anfon neges e-bost at James Harland i ofyn am amserlen i ddangos statws y cynnydd a wnaed efo SPGau. Gofynnodd yr Aelodau hefyd i James Harland cael ei wahodd i annerch cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

*Penderfynwyd gwahodd James Harland i gyfarfod yn y dyfodol ac i ofyn am amserlen ar y cynnydd a fu efo SPGau.*

**266/18 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC:

- a. Rhybudd o geisiadau am reoliadau traffig dros dro yn
  - i) Ffordd yr Orsaf a Ffordd Sea View – 29<sup>ain</sup> a 30<sup>ain</sup> Tachwedd 2018.
  - ii) Old Highway – 3<sup>ydd</sup> – 4<sup>ydd</sup> Rhagfyr 2018
- b) Parciau Cymunedol i Gŵn – Cytunodd yr Aelodau i wahodd swyddog i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y cynnig ac i ateb unrhyw gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor
- c Gardd y Dywysoges Diana: Derbyniwyd ac fe nodwyd copi o gŵyn gan gymydog am sŵn

**267/18 Cymdeithas Gefeillio Bae Colwyn, Abergele a'r Ardal:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol, er gwybodaeth, taflen newyddion olaf y Gymdeithas Gefeillio. Gofynnodd y Cyngorydd B. Barton i'r cofnod ddangos ei fod yn bwriadu herio'r broses a ddefnyddiwyd i ddirwyn y Gymdeithas i ben.

**268/18.Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru:**

Bu'r Cyngorydd B. Barton yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26<sup>ain</sup> Hydref 2018. Rhoddodd y Cyngorydd Barton adroddiad am y cyflwyniad a wnaed gan Ymddiriedolaeth Ysbyty Betsi Cadwaladr a dywedodd bod y cyflwyniad wedi para am hanner awr ac ym marn y Cyngorydd Barton, ni atebwyd y pryderon a godwyd yn ddigonol. Cynhyrchwyd taflen liwgar a oedd eto, ym marn y Cyngorydd Barton, yn wastraff o arian.

**269/18 Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs):**

Yn absenoldeb y Cyngorydd J. Pearson, gohiriwyd yr eitem hon i'r cyfarfod nesaf.

**270/18 Diwrnod Siartredig Coed Cymdeithas Genedlaethol Cyngorau Lleol:**

Derbyniwyd a nodwyd y neges e-bost a dderbyniwyd oddi wrth y Mudiad Coed Siartredig.

**271/18 Parthau Ffibr Pur**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Barthau Ffibr Pur.

**272/18 Gohebiaeth Arall:**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc Cynorthwyol ar gais:

- a. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych – Diweddariad Cynnydd yr Hydref.
- b. Comisiynydd Henoed Cymru – Taflen Newyddion Hydref 2018
- c. Adroddiad Effaith CVSC 2017/18.

**273/18 Cynllunio:**

- a Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy a welir yn Atodlen A sydd gyda hwn i gael eu hystyried. Dywedwyd bod y Cynghorydd J. Pearson (Warden Coed) wedi dweud wrth y Clerc Cynorthwyol nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau coed oedd wedi eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod hwn

*Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn yr Atodlen honno.*

- b *Penderfynwyd derbyn a nodi'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBSC am y cyfnod 22/10/18 hyd at 04/11/18.*

- c **Cartrefi Cymru - Digwyddiad Ymgynghori Cyhoeddus:**

Bu'r Cynghorydd Merrill Jones yn yr Ymgynghoriad ac roedd o'r farn bod y tai yn fychan iawn.

*Penderfynwyd disgwyl am y cais cynllunio cyn cyflwyno sylwadau.*

- ch **Safle Ymadfer Mary Bamber a John Braddock:**

Cyflwynwyd y llythyr ymgynghori cyn cyflwyno cais a chafodd ei ystyried ynghyd a chopi o lythyr gan breswlydd lleol yn datgan ei bryderon.

*Penderfynwyd disgwyl am y cais cynllunio cyn cyflwyno sylwadau.*

**274/18 Trwyddedau:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol, er gwybodaeth, hysbysiad am nifer o geisiadau am drwyddedau a dderbyniwyd ar gyfer ardal Bae Colwyn.

*Penderfynwyd derbyn yr hysbysiad am geisiadau am drwyddedau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 pm

..... Cadeirydd